

PWYLLGOR	LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	22 MAI 2025
TEITL	SIARTER ARCHWILIO MEWNOL
DIBEN	CYFLWYNO'R MANDAD A'R SIARTER ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR
AWDUR	LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO
CAMAU GWEITHREDU	CYMERADWYO'R SIARTER

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi penderfynu bod y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA) yn sail addas ar gyfer ymarfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, yn ddarostyngedig i ofynion pellach fel y nodir yn y Nodyn Cymhwyso – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.
- 1.2 Mae'r Nodyn Cymhwyso yn darparu cynnwys penodol i sector cyhoeddus y DU, dehongliad o ofynion y Safonau (GIAS) yn yr amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ar draws sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer ymarfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
- 1.3 Mae CIPFA wedi datblygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod) i gefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol. Mae wedi'i anelu at y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer archwilio mewnol. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw.
- 1.4 Mae'r Cod yn nodi "mai'r prif weithredwr archwilio"¹ sydd â chyfrifoldeb i baratoi siarter sy'n cydymffurfio â GIAS yn sector cyhoeddus y DU. Dylai'r pwyllgor archwilio² gael ei fodloni ei fod yn cwmpasu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol. Rhaid iddo gynnwys y mandad sy'n deillio o'r rheoliadau³, ynghyd ag unrhyw fandad ychwanegol y cytunwyd arno, a chynnwys llinell adrodd archwilio mewnol i'r pwyllgor.
- 1.5 Mae'r mandad archwilio mewnol yn darparu manylion am awdurdod, rôl a chyfrifoldebau swyddogaeth archwilio mewnol.

¹Rheolwr Archwilio

²Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

³Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

- 1.6 Mae'r siarter archwilio mewnol yn ddogfen ffurfiol sy'n cynnwys mandad swyddogaeth archwilio mewnol, sefyllfa sefydliadol, perthnasoedd adrodd, cwrpas gwaith, mathau o wasanaethau a manylbau eraill.
- 1.7 Mae'r Siarter yn nodi'r trefniadau sydd eu hangen ar y swyddogaeth archwilio mewnol i gyflawni ei diben. Mae rôl archwilio mewnol yn cynnwys:
- cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yr awdurdod drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol
 - hyrwyddo arfer da mewn llywodraethu drwy sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod
 - cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer prosiectau mawr, rhaglenni a newidiadau systemau
 - mynediad at fuddiannau'r awdurdod mewn trefniant cydweithredol a hyd braich
- 1.8 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn nodi sawl elfen allweddol y dylid eu cynnwys mewn siarter archwilio mewnol. Mae'r elfennau hyn yn sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i diffinio'n glir ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn sefydliad. Y prif gydrannau yw:

Mandad: sy'n nodi'n glir bwrpas a chenhadaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.

Diffiniadau: diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y swyddogaeth archwilio mewnol.

Sefyllfa Sefydliadol: yn diffinio sefyllfa archwilio mewnol o fewn y sefydliad, gan sicrhau bod ganddo awdurdod ac annibyniaeth ddigonol sy'n cynnwys mynediad anghyfyngedig i'r uwch reolwyr a'r bwrdd.

Perthnasoedd Adrodd: nodi i bwy mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn adrodd, a pherthynas adrodd swyddogaethol y Prif Weithredwr Archwilio â'r bwrdd.

Sgôp y Gwaith: Amlinellu'r ystod o weithgareddau a gwasanaethau a ddarperir gan y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys gwasanaethau sicrwydd ac ymgynghori.

Mathau o Wasanaethau: Manylu ar y mathau penodol o archwiliadau ac adolygiadau y bydd y swyddogaeth archwilio mewnol yn eu gweithredu.

Awdurdod: Rhoi mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r holl gofnodion, personél a phriodweddau ffisegol angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

Safonau Proffesiynol: Ymrwymo i gadw at safonau a chod moeseg yr IIA.

Sicrwydd Ansawdd a Gwella: Cynnwys darpariaethau ar gyfer rhaglenni sicrwydd ansawdd a gwella parhaus i gynnal safonau uchel o berfformiad.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.